# Rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth

Dyddiad cyhoeddi: 15 Rhagfyr 2016

# Rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth

## Y Cefndir

1.1 Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth Siarter a Chytundeb newydd y BBC a oedd yn datgan sut caiff y BBC ei lywodraethu a'i reoleiddio dros yr 11 mlynedd nesaf. O 3 Ebrill 2017 ymlaen, bydd Bwrdd BBC newydd yn gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd, gosod ei strategaeth a gwneud penderfyniadau golygyddol a gweithredol. Bydd y cyfrifoldeb o reoleiddio'r BBC yn cael ei drosglwyddo gan Ymddiriedolaeth y BBC i Ofcom. Ein rôl ni ydy dal y BBC i gyfrif, monitro ei berfformiad a gosod gofynion rheoleiddio.

1.2 Rôl y BBC ydy gweithredu er budd y cyhoedd a gwasanaethu pob cynulleidfa gyda chynnwys sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Er mwyn gwneud hynny, mae'n darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd, ynghyd ag allbwn a gwasanaethau unigryw ac o ansawdd uchel. Wrth ailosod Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC, mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau cyfraniad gwerthfawr y BBC i'r DU ac i fywydau pobl. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi egluro ei fod yn disgwyl i'r BBC wneud mwy mewn rhai meysydd er mwyn cyfiawnhau ei drefniadau cyllido unigryw a'i statws breintiedig.

1.3 Mae gan y DU sector darlledu llwyddiannus, sy'n cael ei gynnal gan dirwedd cyfryngau gystadleuol ac mae'r BBC yn rhan ganolog o honno. Mae rhaglenni a gwasanaethau'r BBC yn rhan anhepgor o'r ystod eang o gynnwys ansawdd uchel ac amrywiol mae cynulleidfaoedd y DU yn ei mwynhau. Bydd y BBC yn parhau i chwarae rhan allweddol drwy gyflawni yn ôl ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus newydd.

1.4 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn cydnabod bod angen i'r BBC allu llwyddo, gan gynnwys mewn ffyrdd newydd ac arloesol, er mwyn sicrhau y bydd yn diwallu ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, a'i fod hefyd yn ystyried effeithiau posibl ar gystadleuaeth yn y sector drwyddo draw. Mae gan Ofcom ran i'w chwarae hefyd i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd lle mae'r BBC yn gweithredu. Felly, mae gan Fwrdd y BBC ac Ofcom rwymedigaethau i ystyried effeithiau gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth.

1.5 Yr ydym yn credu bod cystadleuaeth o fudd i gynulleidfaoedd gan ei fod yn gallu cynyddu dewis ac ysgogi buddsoddiad ac arloesedd. Mae cystadleuaeth hefyd yn gallu creu cymhelliannau i fusnesau ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n fwy cost-effeithiol.

1.6 Fel sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, yn anochel mae'r BBC yn effeithio ar gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau ehangach. Gall gael effaith gadarnhaol drwy ysgogi galw neu hybu arloesedd ar draws y sector, er enghraifft. Ond wrth gyflawni ei amcanion, gall y BBC hefyd niweidio gallu cwmnïau eraill i gystadlu'n effeithiol.

1.7 Gall pryderon cystadleuaeth godi os ystyrir bod gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn gwthio cystadleuaeth i ffwrdd neu'n gwyro cwmnïau eraill rhag buddsoddi neu arloesi. Ceir perygl hefyd heb ddiogelwch priodol y gellid defnyddio

arian cyhoeddus y BBC fel cymhorthdal neu fantais ar gyfer ei is-gwmnïau masnachol drwy gynnig gwasanaethau ar delerau ffafriol. Gallai hyn ystumio cystadleuaeth drwy roi mantais gystadleuol annheg i'r is-gwmnïau masnachol hynny. Mewn perthynas â dosbarthu, ceir perygl na fydd cystadleuwyr yn gallu datblygu cynigion atyniadol i ddefnyddwyr os nad ydynt yn gallu rhoi cynnwys y BBC yn eu gwasanaethau, neu os ydynt yn cael mynediad i'r cynnwys hwnnw ar delerau sy'n annheg neu'n gwahaniaethu.

1.8 Ein rôl ni ydy sicrhau bod pryderon o'r fath yn cael eu hystyried yn iawn. Byddwn yn edrych ar yr effaith ar y farchnad ochr yn ochr ag unrhyw fanteision cyhoeddus, gan ystyried angen y BBC i gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus, a'r angen i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

## Gweithdrefnau ac arweiniad drafft

1.9 Heddiw yr ydym wedi cyhoeddi pedwar ymgynghoriad sy'n ymwneud â meysydd gwahanol o weithgarwch y BBC a allai arwain at bryderon ynghylch cystadleuaeth.[1] Mae'r dogfennau hyn yn nodi'r offer byddwn ni'n eu defnyddio i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd lle mae'r BBC yn gweithredu. Byddant yn rhan o Fframwaith Gweithredu Ofcom ar gyfer y BBC ac yr ydym yn disgwyl ychwanegu atynt wrth i'n gwaith symud ymlaen.

### Asesiadau cystadleuaeth

1.10 Bydd asesiadau cystadleuaeth yn ymchwilio i weld a ellir cyfiawnhau unrhyw newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC a Gwasanaethau Cyhoeddus y DU newydd arfaethedig, a all gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth, yng ngoleuni'r gwerth posibl i'r cyhoedd a'r effeithiau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

1.11 Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r gweithdrefnau a'r amserlenni a fydd fel rheol yn berthnasol. O dan amgylchiadau arferol byddwn yn cymryd chwe wythnos i benderfynu a ydy cynnig y BBC yn sylweddol ac a oes angen asesiad cystadleuaeth pellach. Os bydd angen asesiad cystadleuaeth llawn, gallai gymryd hyd at chwe mis i benderfynu a gaiff y BBC fwrw ymlaen â'i gynnig. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn rhoi fframwaith ar gyfer sut byddwn yn dadansoddi'r materion a godir.

### Adolygiadau cystadleuaeth

1.12 Bydd adolygiadau cystadleuaeth yn ystyried a ydy un o weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus presennol y BBC yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Byddai hyn yn cynnwys asesu a ydy gwerth cyhoeddus y gwasanaeth yn cyfiawnhau effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

1.13 Nid yw hyn yn golygu edrych ar benderfyniadau busnes beunyddiol y BBC, er enghraifft penderfyniadau am raglenni unigol neu amserlennu. Bwriad hyn ydy edrych ar y gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli lle mae'r BBC wedi gwneud newidiadau graddol dros amser neu lle mae amodau'r farchnad wedi newid yn

[1] [DOLEN]

sylweddol, a allai godi cwestiynau pwysig ynghylch effaith gwasanaeth ar farchnadoedd.

1.14 Mae ein hymgynghoriad yn nodi'r gweithdrefnau byddwn fel rheol yn eu mabwysiadu wrth ystyried a ddylid dechrau adolygiad cystadleuaeth ac wrth gynnal yr adolygiad ei hun. Mae'n debyg y bydd yr amserlenni ar gyfer adolygiadau'n dibynnu mwy ar yr achos nag ar gyfer asesiadau cystadleuaeth. Yn gyffredinol byddwn yn rhoi'r gweithdrefnau manwl a'r amserlenni ar ddechrau ein hadolygiad a byddwn yn gweithredu'n gyflym i gwblhau ein gwaith. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn rhoi fframwaith ar gyfer ein dadansoddiad, ac yr ydym yn disgwyl y bydd hwn yn debyg i'n dull gweithredu mewn asesiad cystadleuaeth BBC.

**Gweithgareddau masnachol**

1.15 Ein rôl ni yma ydy rhoi sylw i'r pryderon cystadleuaeth a allai godi o'r berthynas rhwng y BBC a'i is-gwmnïau masnachol.

1.16 Mae ein hymgynghoriad yn gosod gofynion ar y BBC i sicrhau na fydd y berthynas hon yn ystumio marchnadoedd nac yn creu mantais gystadleuol annheg i'w is-gwmnïau.

1.17 Ar ben hynny, mae ein hymgynghoriad yn cynnwys arweiniad ynghylch sut byddwn yn asesu newidiadau mawr i is-gwmnïau masnachol y BBC, gan ganolbwyntio ar a allai newidiadau o'r fath ystumio'r farchnad neu greu mantais gystadleuol annheg i is-gwmnïau'r BBC.

**Dosbarthu**

1.18 Ein rôl ni yma ydy ystyried cwynion penodol am gystadleuaeth ynghylch y ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei wasanaethau cyhoeddus, gan ystyried yr angen i'r BBC gyflawni ei gylch gwaith sydd wedi cael ei nodi gan Lywodraeth.

1.19 Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r gofynion yr ydym yn bwriadu eu gosod ar y BBC mewn perthynas â dosbarthu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn cynnwys arweiniad ar y ffactorau y gallwn ni eu hystyried pan fyddwn yn asesu cwynion am y ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei wasanaethau.

## Y camau nesaf

1.20 Yr ydym yn croesawu sylwadau ar y pedwar ymgynghoriad. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw **5pm ar 13 Chwefror 2017**.

1.21 Ar ôl i ni adolygu'r ymatebion i'r ymgyngoriadau, yr ydym yn bwriadu cyhoeddi datganiadau ynghylch gofynion ac arweiniad erbyn **3 Ebrill 2017**.